

BARDDAS

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

SWYDD CYDLYNYDD

Swydd gyffrous ac amrywiol sy'n cynnig cyfle i berson trefnus a brwdfrydig chwarae rhan sylweddol yn datblygu'r cyfraniad a wna'r Gymdeithas ym myd barddoniaeth Gymraeg.

Chwiliwn am unigolyn egniol sy'n meddu ar sgiliau gweinyddol o'r radd flaenaf, ynghyd â meistrolaeth o'r cyfryngau cymdeithasol at ddiben hyrwyddo a marchnata yn greadigol. Byddai'n hynod o fanteisiol petai'r unigolyn yn gyfarwydd â byd barddoniaeth a llenyddiaeth yng Nghymru heddiw, gan amlygu brwdfrydedd tuag at amcanion a gweithgaredd Barddas.

Bydd y dyletswyddau yn cyffwrdd a phob agwedd ar waith Barddas: Y Gymdeithas Gerdd Dafod.

Cyflog: £29,600 pro rata am 20 awr yr wythnos

Am fanylion llawn a swydd ddisgrifiad, ewch i wefan Barddas
www.barddas.cymru

Dyddiad cau: dydd Mercher, 12 Awst

Cyfweliadau: dydd Iau, 20 Awst (trwy Zoom)

Barddas

SWYDD CYDLYNYDD

TELERAU

Pecyn yn cynnwys:

Cyflog: £29,600 pro rata am 20 awr yr wythnos

- Cyfraniad cyflogwr at bensiwn o 5%
- Gweithio oriau hyblyg ac o gartref
- Ad-daliad o 45c y filltir am gostau teithio achlysurol
- Darperir cyfrifiadur a thrafodir trefniant ffon

Prif Ddyletswyddau:

- Cyfrifoldeb am holl waith gweinyddol Barddas: Y Gymdeithas Gerdd Dafod gan barhau i foderneiddio ein prosesau
- Paratoi ar gyfer, gweinyddu, mynychu ac adrodd i 3 chyfarfod Pwyllgor Gwaith y flwyddyn (a'r Is-bwyllgor Cyhoeddiadau)
- Gweinyddu gwefan Barddas a chyfrannu'n gyson i'r cyfryngau cymdeithasol
- Cynorthwyo gyda cheisiadau grant a gweinyddu grantiau
- Gweinyddu'r drefn aelodaeth a thanysgrifiadau
- Trefnu digwyddiadau lansio llyfrau a hyrwyddo
- Cynorthwyo Golygydd Cyhoeddiadau Barddas a Golygydd Cylchgrawn Barddas
- Gweinyddu prosesau dosbarthu llyfrau
- Cadw cyfrifmanwl a chywir o werthiant llyfrau (trefniadau cadw stoc i'w hadolygu gyda deiliad y swydd)
- Hwyluso gwaith y Gymdeithas wrth iddi ymdrechu i gynyddu ei gweithgaredd yn y gymuned ac mewn ysgolion
- Gweithio ar stondin Barddas yn yr Eisteddfod Genedlaethol
- Ymwneud a threfniadau Gŵyl Gerallt yn flynyddol
- Unrhyw waith arall addas sy'n hwyluso gwaith y Gymdeithas

Atebolrwydd:

Bydd y Cydlynnydd yn atebol i'r Pwyllgor Gwaith, gyda'r Cadeirydd yn reolwr llinell

Anfonwch lythyr cais a CV at swyddi@barddas.com

Dyddiad cau: dydd Mercher, 12 Awst

Cyfweliadau: dydd Iau, 20 Awst (trwy Zoom)